# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
## 14/06/2024

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn) a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans ac Aled Jones Griffith (Grŵp Llandrillo Menai), Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes) a Paul Spencer (Prifysgol Bangor).

Prif Swyddogion – Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Andrew Farrow (Cyngor Sir y Fflint), Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Sioned Williams (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol -

Awdurdod Lletya – Iwan G Evans (Swyddog Monitro), Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Uchelgais Gogledd Cymru - Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau), Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Ddigidol), David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo), Robyn Lovelock (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf), Sian Lloyd Roberts (Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol), Rhianne Massin (Rheolwr Caffael a Gweithrediadau), Angharad Evans (Swyddog Prosiect Sgiliau a Chyflogadwyedd Dros Dro), Elgan Roberts (Rheolwr Rhaglen Ynni) a Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol).

Sylwedyddion – Wendy Boddington (Sylwedydd, Llywodraeth Cymru) a Gareth Ashman (Llywodraeth y DU).

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn Gadeirydd ar gyfer 2024/25.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Mark Pritchard yn Is-gadeirydd ar gyfer 2024/25.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Y Cynghorydd Ian B. Roberts (Cyngor Sir y Fflint);
- Y Cynghorydd Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych);
- Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn) gyda Gary Pritchard yn dirprwyo;
- Yr Athro Edmund Burke (Prifysgol Bangor) gyda Paul Spencer yn dirprwyo;
- Yr Athro Maria Hinfelaar (Prifysgol Wrecsam)
- Yana Williams (Coleg Cambria)
- Dewi A. Morgan (Swyddog Cyllid Statudol) gyda Sian Pugh yn dirprwyo;

- Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint) gydag Andy Farrow yn dirprwyo;
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) gyda Sioned Williams yn dirprwyo.
- Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych)

Croesawodd y Cadeirydd y dirprwyon i'r cyfarfod.

Diolchwyd i Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai) am ei waith a'i gyfraniad i'r Bwrdd dros y blynyddoedd diwethaf, wrth iddo fynychu ei gyfarfod olaf. Estynwyd croeso i Aled Jones-Griffith i'r Bwrdd fel ei olynydd. Yn yr un modd, croesawyd yr Athro Joe Yates i'r cyfarfod fel cyd-gynrychiolydd Prifysgol Wrecsam yn dilyn ei benodiad fel Is-ganghellor y brifysgol.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio) ar gyfer Eitem 8 oherwydd ei phenodiad fel Prif Weithredwr dros dro Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Nodwyd ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac fe adawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

**5. MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17 Mai 2024 fel rhai cywir.

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023/24**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Portffolio gyda chefnogaeth swyddogion Uchelgais Gogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD**

**Nodwyd a derbyn:**
1. **Nodwyd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023/24.**
2. **Cymeradwyo cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023/24 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae adrodd chwarterol a blynyddol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, caiff yr adroddiadau ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r Cynllun Twf a'r cynnydd sydd wedi'i wneud wrth gyflawni prosiectau, gan fynegi diolchiadau i swyddogion Uchelgais Gogledd Cymru am eu gwaith safonol ar hyd y flwyddyn.

Tywyswyd yr Aelodau drwy brif bwyntiau'r Adroddiad gan dynnu sylw penodol at:

- **Uchafbwyntiau 2023/24** - Cydnabuwyd bod heriau wedi rhwystro Achosion Busnes Llawn ac Amlinellol rhag cael eu cymeradwyo yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn a diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith er mwyn sicrhau bod yr achosion busnes hynny yn datblygu yn amserol er mwyn eu hystyried yn hwyrach yn y flwyddyn. Yn ogystal, cadarnhawyd eu bod yn gweithio ar brosiectau amgen megis her Ariannu Hydrogen ac wedi llwyddo i groesawu pum prosiect newydd i ymuno â'r Cynllun Twf. Pwysleisiwyd bod nifer o Achosion Busnes Amlinellol, megis Rhwydwaith Talent Twristiaeth a Chyn Ysbyty Gogledd Cymru, ac Achosion Busnes Llawn, megis Gwaith Treulio Anerobig Glannau Dyfrdwy wedi cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd yn ystod ail hanner y flwyddyn. Ymhelaethwyd bod Achos Busnes Llawn Cyn Ysbyty Gogledd Cymru bellach wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd.
- **Canolfan Proeseu Signalau Digidol (DSP) –** Cadarnhawyd mai dyma'r prosiect cyntaf i gyrraedd y nod o gyflawni ac mai 2023/24 oedd ei ail flwyddyn o wneud hynny. Ymfalchiwyd bod y prosect wedi arwain at greu 13 o swyddi ac wedi cynhyrchu GVA ychwanegol o £1.275m. Ymhelathwyd bod y prosiect bellach wedi sicrhau cyllid ychwanegol o £1.5m. Nodwyd bod y prosiect yn parhau i gydweithio gydag 18 o bartneriaid ac bod 53 o bobl wedi mynychu sesiynau sgiliau a hyfforddi yn ystod y flwyddyn.
- **Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter** - Mynegwyd balchder bod gwaith adeiladu'r ganolfan wedi cychwyn ers Chwefror 2024 ac bod y gwaith yn parhau i ddatblygu o flaen targedau amser. Atgoffwyd bydd y ganolfan yn adeilad arloesol er mwyn datblygu cydweithrediad busnes a datblygu sgiliau mewn opteg, ffotoneg a deunyddiau cyfansawdd, fel dewisiadau amgen ysgafn ar gyfer gweithgynhyrchu. Nodwyd hefyd bydd y datblygiad yn integreiddio hydrogen fel ffynhonnell tanwydd amgen gan gyfrannu at arferion cynaliadwy mewn diwydiant drwy leihau allyriadau carbon cwmnïau'r rhanbarth. Pwysleisiwyd mai rhan allweddol o'r prosiect yw denu buddsoddiad i ogledd Cymru a chreu cyflogaeth leol, gan bwysleisio y rhagwelir oddeutu 70 i 90 o swyddi newydd yn cael eu creu o fewn y ganolfan ac dros fil o bobl wedi'u hyfforddi i ddarparu datrysiadau arloesol ar gyfer dyfodol.
- **Cronfa Band Eang Lleol** - Eglurwyd bod y prosiect wedi uwchraddio cysylltiadau band eang ar 17 safle a reolir gan y sector gyhoeddus ac wedi gosod band eang ffeibr optig sydd â gallu gigabit mewn ardaloedd yr awdurdodau lleol a safleoedd iechyd yn Wrecsam, Gwynedd, Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Chonwy. Cydnabuwyd nad oes modd adrodd ar yr effaith ehanganch o'r gwaith hyd yma ond mae'r cyflenwyr wedi cadarnhau bydd data o'r fath ar gael yn fuan i'r Aelodau.
- **Y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol** - Atgoffwyd yr Aelodau bod Cynllun Sgiliau cyfredol y bartneriaeth yn weithredol ers blwyddyn erbyn hyn a bod gwaith y bartneriaeth yn ffocysu ar y flaenoriaeth o 'Alluogi a Grymuso Cyflogwyr' yn ogystal â 'Galluogi a Grymuso Unigolion'.
    - Adroddwyd bod swyddogion wedi bod yn cydweithio gyda cyflogwyr yn y sector carbon isel er mwyn deall eu anghenion cyn cydweithio gyda cholegau a phrifysgolion er mwyn cyfarch unrhyw fwlch mewn sgiliau allweddol. Cydnabuwyd nad oedd busnesau yn ymwybodol o ddarpariaeth a chyfarpar arloesol a oedd ar gael yng Ngogledd Cymru. Pwysleisiwyd bod hyn wedi arwain at datblygiad prosbectws sgiliau a oedd yn rhannu gwybodaeth am y sgiliau a ellir eu meithrin mewn colegau a phrifysgolion yn y rhanbarth. Mynegwyd balchder bod y prosbectws yn arfogi cwmnïau i ail-hyfforddi eu staff yn ac yn rhoi hyder i unrhyw un sydd yn symud i'r ardal, bod y sgiliau hyn ar gael i'w dysgu yma.
    - Cyfeiriwyd at y gwaith mae'r bartneriaeth wedi bod yn ei wneud gyda HMP Berwyn er mwyn recriwtio cyn-droseddwyr. Ymfalchiwyd bod y cynllun hwn wedi bod yn llwyddiannus gan bod swyddogion wedi cynnal trafodaethau gyda cyflogwyr ac bod nifer o gyn-droseddwyr wedi llwyddo i gael swydd ar ôl gadael y carchar. Pwysleisiwyd bydd y gwaith hwn yn parhau dros y flwyddyn nesaf.

    - Adroddwyd bod swyddogion wedi bod yn cydweithio gyda phobl ifanc er mwyn eu haddysgu ar lwybrau gyrfa a'u cynorthwyo i lwyddo i'w ddilyn tra'n aros o fewn y rhanbarth. Esboniwyd bod swyddogion wedi llwyddo i wneud hyn drwy hyrwyddo cyrsiau sydd ar gael o fewn y rhanbarth yn ogystal â thynnu sylw at swyddi sydd ar gael yng Ngogledd Cymru. Adroddwyd bod hyn yn cael ei dreialu ar hyn o bryd drwy gynllun peilot ar y cyd gyda Chyngor Sir Ynys Môn. Manylwyd bod y bartneriaeth yn cydweithio gyda'r pum ysgol uwchradd yn y Sir er mwyn integreiddio llwybrau gyrfa mor fuan â phosib pan mae pobl ifanc yn symud i ysgolion cynradd. Esboniwyd bydd y peilot yn cael ei ymestyn i Gyngor Sir y Fflint dros y flwyddyn nesaf.
    - **Ymchwil Sgiliau Digidol** – Cyfeiriwyd at ymchwiliad a gomisiynwyd gan y Bartneriaeth Sgiliau a oedd yn ymgysylltu â sefydliadau ym mhob sector. Nodwyd y dechreuwyd y gwaith drwy holiadur ac fe dderbyniwyd 68 o ymatebion ar draws y rhanbarth o wahanol sectorau. Cydnabuwyd bod nifer o faterion wedi codi o fewn yr holiadur hwn gan gynnwys diffyg mewn amrywiaeth o fewn y gweithleoedd, gyda llai o fenywod yn gweithio mewn rhai meysydd. Tynnwyd sylw at nifer o agweddau cyffrous sydd ar y gweill megis Deallusrwydd Artiffisial a gemau technolegol.
    - Adroddwyd bod yr ymchwiliad a gomisiynwyd wedi arwain at 8 argymhelliad ar gyfer y dyfodol, ac bod y nifer helaeth ohonynt yn manylu ar gasglu gwybodaeth er mwyn sicrhau ei fod ar gael i gyflogwyr ar draws y rhanbarth. Cadarnhawyd bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn gwireddu'r 8 argymhelliad yma fel targedau i'r dyfodol drwy nifer o wahanol fideos, cyfarfodydd, ymgyrchoedd ac astudiaethau achos. Cadarnhawyd bod yr adroddiad ar gael i'r Aelodau os ydynt yn dymuno cael golwg drosto.
    - **Pecyn Cymorth y Person Ifanc** - Esboniwyd bod y pecyn wedi cael ei rannu i bedwar rhan er mwyn adlewyrchu bod pob person ifanc yn wahanol ac yn dysgu mewn gwahanol ddulliau. Manylwyd mai'r pedair rhan yw; dogfen PDF ysgrifenedig, fideo wedi ei animeiddio, astudiaethau achos ysgrifenedig ac astudiaethau achos ar ffurf fideo. Esboniwyd mai thêm cyffredin ar draws yr holl rannau hyn ydi sgiliau trosglwyddadwy ac arddangos y gwahanol ffyrdd sydd ar gael i gyrraedd targedau gyrfaol. Ymfalchïwyd bod dros 2000 o ymweliadau i'r wefan ers iddo gael ei lansio ym mis Ionawr, gyda'r ddogfen PDF yn cael ei lawrlwytho dros 1000 o weithiau.
- **Cynlluniau Ynni Ardal Leol a Strategaeth Ynni Rhanbarthol** - Nodwyd bod swyddogion wedi bod yn cydweithio'n agos gyda chyflenwyr ac yr awdurdodau lleol yn ogystal â rhanddeiliaid er mwyn datblygu cynlluniau ynni. Pwysleisiwyd mai prif nod y tîm yw cefnogi gwaith swyddogion yr awdurdodau lleol tra'n sicrhau cysondeb ar draws yr holl ranbarthau a bod cydymffurfiaeth barhaus gyda Strategaeth Ynni Rhanbarthol a Chynlluniau a Pholisïau Cenedlaethol. Cadarnhawyd bod datblygiad y strategaeth a chynlluniau hyn wedi bod yn broses trylwyr iawn gyda nifer uchel o gyfraniadau gan bartneriaid. Diolchwyd i bawb am rannu barn a'u profiadau er mwyn sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cynorthwyo targedau i gyrraedd Sero Net Carbon. Adroddwyd bod y cynlluniau terfynol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a thargedau yn gywir a byddent yn cael eu cyfieithu a'u rhannu gyda'r awdurdodau lleol mor fuan â phosib.
- **Cyllid Ffyniant Gyffredin** - Atgoffwyd yr Aelodau bod dros filiwn o bunnoedd wedi ei sicrhau o gyllid Ffyniant Gyffredin er mwyn cyflawni ffrydiau gwaith sy'n cyd-redeg â chynlluniau'r Cynllun Twf. Mynegwyd balchder bod nifer o'r ffrydiau gwaith bellach yn weithredol. Rhannwyd diweddariad ar y ffrydiau gwaith gan nodi:
    - **Sgiliau a Chyflogaeth** – Nodwyd bod cwmni Tropic wedi cael ei gomisiynu er mwyn datblygu Portal Sgiliau a Chyflogaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth o swyddi sydd ar gael yn y rhanbarth ac ysbrydoli pobl ifanc i ystyried cwrs gyrfa mewn sectorau sy'n flaenoriaeth o fewn yr ardal.

- **Buddion a Gwerth Cymdeithasol** – Adroddwyd bod swyddog yn datblygu llwyfan monitro ar-lein ar gyfer ymrwymiadau gweth cymdeithasol ac bydd arferion gorau yn cael eu rhannu ar draws y rhanbarth.
- **Ynni a Sero Net** – Cadarnhawyd bod grantiau bychan ar gael i fusnesau bychan a chanolig drwy brosiect er mwyn eu cynorthwyo i ysgrifennu bidiau yn llwyddiannus, gan obeithio bydd y cwmnïau wedyn yn mynd yn eu blaenau i wneud cais i brosiect 'Ynni Lleol Blaengar' y Cynllun Twf pan fydd yn weithredol.
- **Digidol** – Adroddwyd mai dyma'r ffrwd gwaith mwyaf o fewn y cynllun gan gynnwys 'Cefnogaeth Gymunedol Ddigidol Wledig', 'Asesiadau Cysylltedd SME', 'Cytundebau Mynediad' ac 'Arolwg Darpariaeth Signal Symudol'.

Edrychwyd ymlaen at y flwyddyn nesaf gan nod ei fod yn brysur iawn gyda nifer o brosiectau ar y gweill. Cadarnhawyd bod nifer o Achosion Busnes i'w hystyried dros y flwyddyn gan gynnwys 'Gwaith Treulio Anaerobig Glannau Dyfrdwy', 'Rhwydwaith Talent Twristiaeth', Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol, LPWAN, Cydnerth, Parc Bryn Cegin, Advanced Wireless ac Anturiaethau Cyfrifol.

Tynnwyd sylw y gobeithir bydd trosglwyddiad y Swyddfa Rheoli Portffolio a'r Cynllun Twf i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn digwydd o fewn y flwyddyn gyfredol, gan olygu bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn sicrhau bod trefniadau mewn lle i gael trosglwyddiad llwyddiannus.

Yn ogystal, cyfeiriwyd at nifer o ddatblygiadau ble mae swyddogion yn caffael ar gyfer prosiectau. Manylwyd bod rhain yn cynnwys: Ynni Lleol Blaengar, Canolfan Biotechneg Amgylcheddol, Rhwydwaith Talent Twristiaeth, Cydnerth, Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter ac Fframwaith AAP. Edrychwyd ymlaen i weld y datblygiadau yn y prosiectau hyn yn ogystal â holl ddatblygiadau eraill dros y flwyddyn i ddod.

Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith parhaus.

## 8. DIWEDDARIAD: SWYDDOGAETHAU BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU – TROSGLWYDDO I'R CYD-BWYLLGOR CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Brif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn.

**PENDERFYNWYD**

1. **Nodwyd y diweddariad cynnydd ar waith i sefydlu CBC y Gogledd ac ymateb i'r tasgau sy'n ofynnol gan ei swyddogaethau statudol.**
2. **Nodwyd y cynllun wedi'i ddiweddaru a'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer trosglwyddo Cynllun Twf Gogledd Cymru i CBC y Gogledd.**
3. **Cymeradwywyd bod y trefniadau dros dro i ryddhau amser y Cyfarwyddwr Portffolio am ddau ddiwrnod yr wythnos i ymgymryd â rôl y Prif Weithredwr Dros Dro yn cael ei ymestyn tan 31 Hydref 2024.**
4. **Cytunwyd bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd petai llithriad yn yr amserlen, i geisio cymeradwyaeth yr Aelodau ar amserlen amgen i drosglwyddo Cynllun Twf Gogledd Cymru i CBC y Gogledd.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ym mis Rhagfyr 2021/Ionawr 2022, bu'r Cabinet a Phwyllgorau Gwaith ym mhob un o'r chwe Awdurdod Lleol gytuno, mewn egwyddor, y dylid trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru drwy gytundeb dirprwyo i'r CBC. Mae'r fframwaith statudol a sefydlu'r CBC yn golygu bod angen symud ymlaen gyda'r trosglwyddiad

arfaethedig. Mae angen cymeradwyaeth gan sefydliadau partner a llywodraethau cyn y gellir trosglwyddo.

Gosodwyd 1af o Orffennaf fel dyddiad targed dros dro ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd i Gyd-bwyllgor Corfforedig Y Gogledd. Fodd bynnag, roedd y dyddiad hwn yn amodol ar y sail y gallai sawl factor effeithio arno, gan gynnwys yr angen am gytundeb partner a llywodraeth i drosglwyddo'r Cynllun Twf; Gofynion penderfyniadau ac amserlenni; cyfyngiadau capasiti Mewnol ac ystyriaethau TUPE. Mae yna benderfyniadau allweddol y mae angen eu gwneud i gyflawni'r trosglwyddiad a llai arwain at rai meysydd trosglwyddo yn cael eu gwneud yn ystod cyfnod yr Hydref 2024. Ystyrir and oes modd cyflawni'r dyddiad trosglwyddo arfaethedig ar 1af o Orffennaf 2024. Mae'r adroddiad hwn a'r penderfyniadau sy'n ofynnol yn nodi'r cynllun a'r amserlenni diwygiedig.

**TRAFODAETH**

Diolchwyd i holl swyddogion cysylltiedig Uchelgais Gogledd Cymru a'r Awdurdod Lletyol am eu gwaith i baratoi adroddiad eglur o'r sefyllfa bresennol. Cydnabuwyd nad yw'n sefyllfa ddelfrydol gan nodi bod yr Adroddiad yn manylu ar yr heriau hynny sydd wedi cyfrannu tuag at y sefyllfa bresennol. Ymhelaethwyd hefyd bod capasiti swyddogion wedi cyfrannu at yr heriau a wynebwyd.

Tynnwyd sylw at gymhlethid y tasgau sydd angen eu cwblhau yn ogystal â'r trefniant allweddol o bryd ddylai holl dasgau gael eu cyflawni. Manylwyd ar y wybodaeth hyn drwy gyfeirio at Atodiad 1. Rhannwyd enghreifftiau o fanylder y tasgau drwy gadarnhau bod angen i holl awdurdodau lleol y rhanbarth a'r Llywodraeth gytuno ar bob cam o'r prosesau, yn ogystal â datblygu polisïau a phrosesau cadarn. Cydnabuwyd bod aneglurder ar faterion cyllidol hefyd yn her sydd wedi cael ei wynebu yn ddiweddar. Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau bod pob tasg wedi ei gwblhau a phrosesau digonol mewn lle, cyn i'r trosglwyddiad ffurfiol gael ei wneud, er mwyn sicrhau lleihad mewn risgiau i'r dyfodol. Cadarnhawyd ei fod yn allweddol i addasu dyddiad y trosglwyddiad o fis Gorffennaf i fis Tachwedd, gyda'r gobaith bydd yr holl brosesau mewn lle erbyn hynny.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd nad oes modd sicrhau bydd y trosglwyddiad mewn lle erbyn diwedd mis Hydref 2024 oherwydd mae siawns bydd materion anrhagweladwy yn effeithio ar ddatblygiad y prosesau angenrheidiol hynny, a chydnabuwyd bod swyddogion wedi derbyn beirniadaeth am fethu amserlenni ar y pwnc hwn yn y gorffennol. Yn dilyn trafodaeth fer, cadarnhawyd bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau, os bydd yr angen i ymestyn dyddiad y trosglwyddiad yn codi, yn nodi'r rhesymau pam bod dyddiad y trosglwyddiad wedi llithro. Er hyn, pwysleisiwyd bod swyddogion yn hyderus bodd y targed a osodwyd yn yr adroddiad yn gyraeddadwy.

Ysyriwyd nad oes yna drafodaethau manwl wedi cael eu cynnal gyda'r sector breifat ar hyn o bryd, mewn cyswllt gyda'r trosglwyddiad. Sicrhawyd bydd y trosglwyddiad hwn yn gyfle i ddatblygu perthynas arloesol gyda'r sector breifat ar gyfer y dyfodol, gan bwysleisio bod y cyswllt gyda'r sector breifat yn hanfodol ar gyfer llwyddiant. Sicrhawyd bod rôl y sector breifat ac ymgynghorwyr o fewn y cyd-bwyllgor newydd yn cael sylw parhaus gan swyddogion.

Mynegwyd dymuniadau am sut byddai cyllideb Ffyniant Cyffredin yn cael ei ddyrannu i'r dyfodol yn dilyn etholiad cyffredinol. Atgoffwyd yr Aelodau ei fod yn dod i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2025, a bydd unrhyw barhad pellach yn ddibynnol ar ddatblygiadau gwleidyddol newydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30yb a daeth i ben am 10:45yb.

**Cadeirydd**